




Cynllun Pensiwn
Llywodraeth Leol



Cronfa Bensiynau

CLWYD

Pension Fund

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Newid eich Trefniadau Gwaith

Ebrill 2025

Tudalen Cynnwys

Cyflwyniad.....	3
Sut mae newid oriau yn effeithio ar eich pensiwn?	3
Enghraifft	3
Beth sy'n digwydd os yw'ch cyflog yn cael ei leihau neu ei gyfyngu?	4
Beth sy'n digwydd os ydych chi'n dewis derbyn swydd â chyflog is?	4
Pa fuddion eraill fydd yn cael eu heffeithio?	4
Ble allwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth?	5
Ymwadiad.....	5

Cyflwyniad

Os ydych chi'n newid eich trefniadau gweithio, fe all hynny effeithio ar eich buddion pensiwn yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Gall eich trefniadau gweithio newid os ydych chi'n penderfynu gweithio llai o oriau neu dderbyn swydd ar gyflog is.

Sut mae newid oriau yn effeithio ar eich pensiwn?

Ers 1 Ebrill 2014 mae'ch pensiwn blynyddol yn y cynllun Enillion Cyfartalog Gyrfa wedi'u Hailbrisio (ECGA) yn seiliedig ar:

- Y gwir gyflog pensiynadwy rydych chi wedi'i dderbyn yn ystod blwyddyn y cynllun (1 Ebrill i 31 Mawrth), a
- 1 rhan o 49 o'r gyfradd gronni (neu 1 rhan o 98 o'r gyfradd gronni os ydych chi dan yr adran 50:50)

Po fwyaf yw'ch gwir gyflog pensiynadwy, y mwyaf fydd y swm rydych chi'n ei gronni mewn blwyddyn. Os ydych chi'n dewis gweithio llai o oriau, bydd eich gwir gyflog pensiynadwy yn llai. Mae hyn yn golygu y byddwch yn cronni llai o bensiwn.

Os wnaethoch chi ddechrau talu cyfraniadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar neu cyn 31 Mawrth 2014, roedd hynny ar adeg pan oedd y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gynllun pensiwn cyflog terfynol. **Ni fydd** unrhyw newid i'ch oriau yn effeithio ar y pensiwn rydych chi wedi'i gronni hyd at 31 Mawrth 2014. Mae'ch pensiwn hyd at 31 Mawrth 2014 yn seiliedig ar eich cyflog pensiynadwy cyfwerth â llawn amser terfynol (ac eithrio unrhyw oramser nad yw'n rhan o'ch contract). Felly hyd yn oed os ydych chi'n gweithio rhan-amser, eich cyflog cyfwerth â llawn amser sy'n cael ei ddefnyddio i gyfrifo'r rhan yma o'ch pensiwn.

Enghraifft

Mae Emily yn gweithio llawn amser ac yn talu cyfraniadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol dan y brif adran (1 rhan o 49). Mae hi'n ystyried lleihau ei horiau i 29.60 yr wythnos (4 diwrnod yr wythnos). Mae ei chyflog llawn amser yn £24,000 a fyddai'n gostwng i £19,200 os yw'n lleihau ei horiau. Os digwydd hyn, byddai cronriad pensiwn Emily yn cael ei effeithio fel a ganlyn:

Pensiwn ECGA wedi'i gredydu yn ystod blwyddyn cynllun fel aelod llawn amser:

$$1 \div 49 \times £24,000 = £489.80 \text{ (pensiwn blynyddol)}$$

Pensiwn ECGA wedi'i gredydu os ydych chi'n gweithio 29.60 awr yr wythnos (4 diwrnod yr wythnos). (29.60 awr ÷ 37.00 awr x £24,000 = £19,200):

$$1 \div 49 \times £19,200 = £391.84 \text{ (pensiwn blynyddol)}$$

$£489.80 - £391.84 = £97.96$ (y gwahaniaeth yn y pensiwn blynyddol sy'n cael ei gronni mewn blwyddyn dan y cynllun ECGA).

Beth sy'n digwydd os yw'ch cyflog yn cael ei leihau neu ei gyfyngu?

Os dechreuoch chi dalu cyfraniadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar neu cyn 31 Mawrth 2014, gallwch benderfynu cyfrifo eich pensiwn terfynol yn seiliedig ar:

- Y gorau o'r 3 blynedd diwethaf, pan fydd y flwyddyn yn 365 diwrnod hyd at eich dyddiad gadael. Felly, er enghraifft, os ydych chi'n gadael ar 31 Awst 2024, y 365 gorau o:
 - 1 Medi 2023 tan 31 Awst 2024
 - 1 Medi 2022 tan 31 Awst 2023
 - 1 Medi 2021 tan 31 Awst 2022
- Mewn rhai sefyllfaoedd, gallwch ofyn i'ch cyflogwr gyfrifo eich tâl terfynol fel cyfartaledd o unrhyw 3 blynedd olynol sydd yn dod i ben ar 31 Mawrth. Fel arfer bydd gennych yr opsiwn hwn os yw eich tâl yn lleihau:
 - Ar ôl i chi newid i swydd gyda llai o gyfrifoldeb (ar wahân i ymddeoliad hyblyg neu ddiwedd secondiad)
 - Ar ôl ymarfer gwerthuso swydd neu ymarfer tâl cyfartal
 - Oherwydd bod y tâl pensiynadwy a nodwyd yn eich contract yn newid
 - Oherwydd bod llai na deng mlynedd cyn i chi stopio talu cyfraniadau pensiwn

Fodd bynnag, bydd y pensiwn rydych chi wedi'i gronni o 1 Ebrill 2014 dan y cynllun ECGA yn llai oherwydd gostyngiad neu gyfyngiad yn eich cyflog pensiynadwy.

Beth sy'n digwydd os ydych chi'n dewis derbyn swydd â chyflog is?

Bydd y pensiwn rydych chi wedi'i gronni dan eich hen swydd yn cael ei gyfuno'n awtomatig gyda phensiwn eich swydd newydd, oni bai eich bod chi'n dewis cadw'r pensiynau ar wahân. Mae gennych chi 12 mis o newid eich swydd i wneud y penderfyniad yma.

Os ydych chi'n symud i swydd â chyflog llai, byddwch yn cronni llai o bensiwn o'r diwrnod rydych chi'n dechrau'r swydd newydd oherwydd y bydd eich pensiwn ar ôl i chi newid eich swydd yn seiliedig ar eich cyflog pensiynadwy newydd. Bydd hefyd yn cael effaith ar unrhyw daliad salwch posibl a fydd yn cael ei wneud i chi gan eich cyflogwr ac unrhyw grant untro yn dilyn eich marwolaeth.

Pa fuddion eraill fydd yn cael eu heffeithio?

Os ydych chi'n ymddeol oherwydd afiechyd parhaol, yn dibynnu ar ba mor sâl ydych chi efallai y byddwch chi'n cael taliad ychwanegol at eich pensiwn. Mae'r taliad hwn yn seiliedig ar eich Cyflog Pensiynadwy Tybiedig.

Mae Cyflog Pensiynadwy Tybiedig yn gyfartaledd o'r cyflog pensiynadwy rydych chi'n ei gael o fewn y tri mis llawn (neu 12 wythnos os ydych chi'n cael eich talu'n wythnosol) cyn eich dyddiad gadael; wedi'i uwchraddio a'i ddangos fel swm blyneddol.

Drwy wirfoddoli i leihau eich oriau gweithio, bydd unrhyw daliad salwch yn llai o ganlyniad. Am fwy o wybodaeth am y broses pan fo'ch iechyd yn wael, darllenwch y daflen ffeithiau ar Ymdeol ar Sail Afiechyd dan adran **ffurflenni ac adnoddau** ein gwefan.

Os ydych chi'n marw pan fyddwch chi'n dal yn gweithio a'ch bod chi'n dal yn talu cyfraniadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, mae grant untro gwerth tair gwaith eich cyflog pensiynadwy tybiedig yn daledig ar ôl eich marwolaeth. Fel rheol bydd y grant marwolaeth yn cael ei dalu i'r buddiolwyr rydych chi wedi'u nodi ar eich ffurflen (oni bai bod y ffurflen wedi dyddio neu'ch perthynas agosaf yn anghytuno efo pwy yw'r buddiolwyr). Mae gan Gronfa Bensiynau Clwyd ddisgresiwn i benderfynu pwy sy'n cael y grant.

Os ydych chi'n gweithio rhan-amser, bydd eich cyflog pensiynadwy tybiedig yn gymesur llai, sy'n golygu y bydd y grant marwolaeth yn llai. Os ydych chi'n dymuno cynyddu eich yswiriant bywyd, cysylltwch â Chronfa Bensiynau Clwyd.

Ble allwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth?

Mae'r ffeithlen hon yn rhoi arweiniad cyffredinol yn unig. Os oes angen mwy o wybodaeth arnoch, cysylltwch â Chronfa Bensiynau Clwyd:

Ffôn: 01352 702875

E-bost: pensiynau@sirymfflint.gov.uk

Cyfeiriad: Cronfa Bensiynau Clwyd, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewloe, Sir y Fflint, CH5 3FF

Gwefan: <https://cronfabensiynauclywd.org.uk>

Ymwadiad

Nid yw Cronfa Bensiynau Clwyd yn gallu darparu unrhyw gyngor ariannol. Ar ôl darllen y daflen ffeithiau hon, efallai y byddwch yn dymuno cael cyngor ariannol annibynnol i wneud penderfyniad cytbwys.

Efallai y gall y cyrff hyn eich helpu:

Unbiased:

<https://unbiased.co.uk> (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg).

Helpwr Arian:

<https://www.moneyhelper.org.uk/cy/getting-help-and-advice/financial-advisers/choosing-a-financial-adviser?source=mas>



cronfabensiynauclwyd.org.uk

Cronfa Bensiynau Clwyd, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewloe, Sir y Fflint, CH5 3FF

Cyngor Sir y Fflint yw awdurdod gweinyddu Cronfa Bensiynau Clwyd ac rydym ni'n defnyddio eich data personol yn unol â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data i ddarparu gwasanaeth gweinyddu pensiynau i chi. I gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn defnyddio eich data, gyda phwy rydym yn ei rannu, a'r hawliau sydd gennych mewn perthynas â'ch data, darllenwch yr Hysbysiad Preifatrwydd ar ein gwefan.